COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO A GYNHALIWYD YN HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR – Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB DDYDD IAU, 28 TACHWEDD 2024 AM 10 O'R GLOCH

Presennol:

G Chapman – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| M L Hughes | MJ Williams | RM Granville | N Clarke |
| C Davies | S Easterbrook | | |

Presennol yn Rhithwir:

| | |
|---|---|
| S J Griffiths | R J Smith |

Aelodau Lleyg – Presennol yn Rhithwir:

| | | |
|---|---|---|
| B Olorunnisola | A Bagley | D Austin |

Wedi ei wahodd:

J Spanswick

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

**PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO - DYDD IAU, 28 TACHWEDD 2024**

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Mark Shephard | Y Prif Weithredwr |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol |
| Carys Lord | Prif Swyddog – Cyllid, Tai a Newid |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid |
| Nigel Smith | Rheolwr Grŵp – Prif Gyfrifydd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Rachel Keepins | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Joan Davies | Dirprwy Bennaeth y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol |
| Alex Rawlin | Rheolwr Polisi Corfforaethol a Pherfformiad |
| Kate Pask | Rheolwr Perfformiad Corfforaethol |
| Chris Mason | Rheolwr Cyllid – Rheoli Ariannol, Cau a Systemau |
| Charlotte Branford | Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data |
| Kellie Ward | Swyddog Benthyciadau a Buddsoddiadau |
| Charlotte Branford | Swyddog Gwybodaeth a Diogelu Data |
| Anthony Veale | Archwilio Cymru |
| Samantha Clements | Archwilio Cymru |
| Lucy Herman | Archwilio Cymru |
| Alison Lewis | Archwilio Cymru |
| Jemma Trivett | Archwilio Cymru |
| Ellis Williams | Archwilio Cymru |
| Stephen Griffiths | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Nimi Chandrasena | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd - Cefnogaeth |

Datganiadau o Fuddiannau

Dim

## 181. Cymeradwyo’r Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod 26 Medi fel cofnod gwir a chywir.<br><br>Gofynnodd yr aelodau am i’r cofnodion gofnodi presenoldeb yr Arweinydd a/neu’r Dirprwy Arweinydd pan fyddant yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

## 182. Cofnod Gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i’r Aelodau am Gofnod Gweithredu’r Pwyllgor. Ei amcan oedd hysbysu'r Aelodau ynghylch camau gweithredu canlynol neu wybodaeth bellach y gofynnwyd amdani ynghylch adroddiadau a ystyriwyd gan yr Aelodau a/neu y gofynnwyd amdanynt gan y Pwyllgor, gan gynnwys unrhyw wybodaeth berthnasol arall gysylltiedig ag eitemau agenda blaenorol.<br><br>Mewn ymateb i’r adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion a’u trafod, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Cododd Aelod fater gorfodi parcio. Roedd uwch swyddog o Gyfarwyddiaeth y Cymunedau yn bresennol a dywedodd y bu rhai heriau sylweddol o ran rheolaeth y tîm parcio, a’r rheiny’n ymwneud â phrofedigaeth a salwch hirdymor, a bod hyn wedi ei gwneud yn amhosibl cymryd y camau y cytunwyd arnynt ar y pryd. Fodd bynnag, nododd ymhellach fod rheolwr newydd bellach yn ei le, yn dilyn ymarfer recriwtio, a bod arweinydd y tîm wedi dychwelyd o salwch tymor hir. O'r herwydd, disgwylir i'r cam gweithredu sy'n weddill gael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.<br>• Gofynnodd aelod am ddiweddariad ynghylch y cyfarfod arfaethedig rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a Chadeiryddion Craffu. Mewn ymateb, nodwyd bod y Pwyllgor Craffu yn trafod gyda’r Cadeirydd i weld a fyddai ar gael ar gyfer cyfarfod a bod tri dyddiad posibl wedi cael eu nodi.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor y Cofnod Gweithredu a gwneud sylwadau, fel oedd yn briodol. |

| | |
|---|---|
| | At hynny, gofynnodd yr Aelodau i adroddiad gael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ar 24 Ebrill 2025, yn amlinellu'r hyn sydd wedi ei wneud i sicrhau bod y materion a godwyd ynghylch gorfodi parcio wedi cael sylw llawn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

**183. Adroddiad Monitro – Cwynion Corfforaethol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd nodi proses gwynion corfforaethol yr Awdurdod a Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a phenderfynu a oedd y Pwyllgor yn dymuno gwneud unrhyw argymhellion o ran gallu'r Awdurdod i ymdrin â chwynion corfforaethol yn effeithiol.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion a'u trafod, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y broses uwchgyfeirio ar gyfer cwynion corfforaethol.<br>• Pam nad yw argymhellion yn cael eu gweithredu bob tro o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt, ac a oedd hyn yn fater o ddiwylliant ynteu'n ganlyniad rhwystrau penodol y gellid eu hadnabod.<br>• A fyddai'n bosibl darparu datganiad cryno ar un ochr A4, i'w ddefnyddio gan gynghorwyr, ynghylch y ffordd y gallai etholwyr symud ymlaen â chwynion. Byddai'n rhaid i hyn, o reidrwydd, gyfeirio aelodau o'r cyhoedd at bolisïau oedd wedi eu cyhoeddi.<br>• O ystyried nad oes system ganolog ar hyn o bryd ar gyfer cofnodi cwynion, roedd angen deall ym mha ffordd a pha mor dda y mae'r system bresennol yn gweithio cyn cyflwyno system Granicus ar gyfer rheoli profiadau cwsmeriaid.<br>• Yr angen am system a allai ddarparu data ar gwynion, boed yn ffurfiol neu'n anffurfiol a sut bynnag y cânt eu derbyn, fesul ward.<br>• A ddylai adroddiad yr Ombwdsmon fod yn eitem agenda ffurfiol yn hytrach nag atodiad i'r adroddiad cwynion blynyddol (er gwybodaeth).<br>• Yr angen i ailedrych ar y modd y mae'r Ombwdsmon yn cofnodi ac yn delio â chwynion ac yn cyhoeddi gwybodaeth am Gynghorau Tref a Chymuned.<br>• O ran perfformiad cydymffurfio Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP), canran yr argymhellion y cydymffurfiwyd â hwy ar amser oedd 35%.<br>• A ddylai Pwyllgor Craffu graffu ar Bartneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPCC). |

| | |
|---|---|
| | • Yr angen i gwynion ysgolion gael eu goruchwylio'n ganolog.<br>• Cyfleoedd hyfforddi, ar-lein ac yn bersonol, ynglŷn â chwynion.<br>• Y gwersi a ddysgwyd drwy ddelio â chwynion ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, cael mecanwaith i gynhyrchu themâu a data tueddiadau ar draws cyfarwyddiaethau, gallu gweld bod cyfarwyddiaethau wedi ymateb i'r cwynion yn effeithiol a bod ganddynt ddealltwriaeth o arfer da, ac wedyn gallu cynhyrchu portread o ddiwylliant y Cyngor.<br>• Dylai'r fersiwn nesaf o'r adroddiad gynnwys enghreifftiau o ymdrin â chwynion yn effeithiol o fewn cyfarwyddiaethau.<br>• Yr angen am fwy o fanylion ynghylch y cwynion sy'n dod i mewn i gategori, 'Amrywiol/Arall' yn Atodiad 3 yr adroddiad.<br>• Gwerth posibl casglu'r cwynion anffurfiol a wneir i gynghorwyr yn ddyddiol, ac a allai'r system Granicus newydd ddarparu mecanwaith ar gyfer gwneud hyn.<br>• Yr angen i gasglu a dadansoddi canmoliaeth.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth yr argymhellion ychwanegol a ganlyn:<br><br>• Bod adroddiad ar y system Granicus yn cael ei gyflwyno i'w ystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2025.<br>• Bod Partneriaeth Prosesu Cosbau Cymru (PPCC) yn cael ei chyfeirio i sylw'r pwyllgor craffu perthnasol, a'i fod yn adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br>• Bod swyddogion yn rhoi dadansoddiad i'r Aelodau o berfformiad cydymffurfio'r Cyngor (65% o ddiffyg cydymffurfio), fel y'i disgrifiwyd yn Atodiad E adroddiad yr Ombwdsmon. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

184. **Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr Adroddiad hwn oedd cyflwyno tri adroddiad gan Archwilio Cymru i'r Pwyllgor:<br><br>1. Rhaglen Waith Archwilio Cymru a'r Amserlen. |

| | |
|---|---|
| | 2. Adolygiad o Drefniadau Gwneud Penderfyniadau – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br>3. Gosod Amcanion Lles – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.<br><br>Mewn ymateb i’r adroddiad cyntaf, holodd Aelod ynghylch y broses i unigolion neu bwyllgorau ofyn am ddarn o waith gan Archwilio Cymru.<br><br>Mewn ymateb i’r ail adroddiad, cododd yr Aelodau nifer o faterion a’u trafod, gan gynnwys y canlynol:<br><br>• Y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cynllun dirprwyo.<br>• Sut mae prosesau gwneud penderfyniadau'r Cyngor yn cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.<br>• Yr angen i gryfhau dull y Cyngor o flaengynllunio a chraffu cyn penderfynu.<br>• Yr angen i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â chynnwys aelodau yn y broses o wneud penderfyniadau, ac mewn llunio'r prosesau a'r gweithdrefnau ar gyfer hynny.<br>• A oes angen mynd i'r afael â'r cydbwysedd rhwng rôl yr aelodau a’r swyddogion wrth wneud penderfyniadau, fel bod mwy o ganolbwyntio ar yr aelodau, ac er mwyn bod yn glir mai diwylliant y Cyngor yw mai cynghori mae’r swyddogion, a’r aelodau'n penderfynu.<br>• Y canfyddiad bod penderfyniadau'n cael eu gwneud ar y funud olaf.<br>• Y dylai Pwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd ystyried yr adroddiad.<br><br>Mewn ymateb i’r trydydd adroddiad, croesawodd Aelod nodi mannau ar gyfer gwella yn y maes hwn.<br><br>Anogodd Aelod arall y Cyngor i fabwysiadu golwg eang ar yr hyn y gallai sefydliad partner fod wrth ysgrifennu'r cynllun corfforaethol nesaf. Roedd hyn yn arbennig o wir o ran cyrraedd ymrwymiad y Cyngor i sero net.<br><br>Cwestiynodd y Cadeirydd fis Mawrth 2028 fel dyddiad ar gyfer cwblhau’r gwaith oedd ei angen i weithredu dau o’r tri argymhelliad yn yr adroddiad. Gellid derbyn yr egwyddorion y tu ôl i’r argymhellion hynny yn awr.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor Adroddiadau Archwilio Cymru ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn Atodiad A, Atodiad B ac Atodiad D, ynghyd â Ffurflenni Ymateb Rheolwyr y Cyngor i’r adroddiadau yn Atodiad C ac Atodiad E. |
| Dyddiad Gwneud y | 28 Tachwedd 2024 |

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | |

**185. Datganiad Cyfrifon 2023-24 wedi eu Harchwilio**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig ar gyfer 2023-24 i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gymeradwyo,. Mae hwn i gael ei ardystio gan yr archwilwyr allanol, Archwilio Cymru, ynghyd â Llythyr Cynrychiolaeth cysylltiedig y Cyngor, y Datganiad Llywodraethu Blynyddol sydd wedi'i gynnwys fel rhan o'r Datganiadau, a llythyr yr archwilydd mewn perthynas ag archwilio'r cyfrifon.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, diolchodd cynrychiolydd o Archwilio Cymru i'r Prif Swyddog - Cyllid, Tai a Newid, y Dirprwy Bennaeth Cyllid, y Rheolwr Grŵp - Prif Gyfrifydd, ac aelodau'r tîm cyllid am eu gwaith caled ar y cyfrifon.<br><br>Llongyfarchodd Aelod o'r Pwyllgor y swyddogion a diolch iddynt am gynhyrchu casgliad o gyfrifon diamod, a nododd, o ystyried y sefyllfa yn Lloegr gyda chyfrifon heb eu harchwilio, mai cael y cyfrifon i'r lefel hon o fanylder ar y lefel hon o sicrwydd oedd sylfaen rheolaeth dda y Cyngor.<br><br><u>PENDERFYNODD</u>:<br><br>y Pwyllgor y canlynol:<br><br>• Cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig 2023-24 (Atodiad A).<br>• Nodi Adroddiad Archwilio Cyfrifon yr archwilwyr penodedig (Atodiad B).<br>• Nodi a chytuno y dylai'r Llythyr Cynrychiolaeth terfynol i Archwilio Cymru gael ei lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor a Swyddog Adran 151 (Atodiad C). |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

## 186. Adolygiad Hanner Blwyddyn o Gynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Diben yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Gweithredu oedd yn cyd-fynd â Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023-24, gan nodi sut y mae'r materion sylweddol a nodwyd yn cael eu trin yn ystod 2024-25.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, gofynnodd yr Aelodau am ddiweddariad ar y Strategaeth Ddigidol, ac y dylai fersiwn nesaf yr adroddiad gynnwys sylwebaeth lefel uchel ar yr adroddiadau a dderbyniodd farn gyfyngedig o sicrwydd.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried Cynllun Gweithredu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2024-25 ac fe'i nodwyd ynghyd a'r cynnydd ar y camau gweithredu hyd at 30 Medi 2024. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

## 187. Adroddiad Hanner Blwyddyn ar Reoli'r Trysorlys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd:<br><br>• Adrodd ar Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys am y cyfnod hyd at fis Medi 2024.<br>• Cydymffurfio â gofyniad 'Cod Ymarfer: Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (Cod CIPFA)' Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA).<br><br>Ar 30 Medi 2024, roedd gan y Cyngor £99.58 miliwn o ddyled hirdymor, £15.32 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill a sefyllfa ddyled net gyffredinol o £69.90 miliwn. Y gyfradd llog gyfartalog ar gyfer dyled oedd 4.69% (ac eithrio benthyca Salix sy'n ddi-log) ac ar gyfer buddsoddiadau roedd yn 5.09%. Mae gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd o fenthyca sy'n hawdd ei reoli, gyda'i ddyled bresennol yn ad-daladwy ar wahanol adegau dros y 30 mlynedd nesaf.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, tynnodd yr Aelodau sylw at ariannu'r rhaglen gyfalaf, yr angen am ddata |

| | |
|---|---|
| | cymharol ar weithgarwch rheoli'r Trysorlys mewn cynghorau eraill yng Nghymru, p'un a oedd yn werth ymestyn ein dyled i fuddsoddi mewn cyfleoedd cynhyrchu refeniw, ac a ddylem arfer gofal arbennig wrth barhau i fuddsoddi mewn awdurdodau lleol eraill.<br><br>PENDERFYNODD:<br><br>y Pwyllgor:<br><br>• Nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys ar gyfer 2024-25 am y cyfnod o hanner blwyddyn o 1 Ebrill 2024 i 30 Medi 2024.<br>• Nodi Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer yr hanner blwyddyn yn diweddu ar 30 Medi 2024 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

188. **Llythyr Archwilio Blynyddol Datganiad Harbwr Porthcawl 2023-24**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd cyflwyno Llythyr Archwilio Blynyddol 2023-24 yr archwilydd penodedig ar gyfer Harbwr Porthcawl, oedd ynghlwm yn Atodiad A, i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor Lythyr Archwilio Blynyddol 2023-24 yn Atodiad A. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

**189. Y Cynnydd yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024-25**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar y cynnydd oedd yn cael ei wneud yn erbyn y gwaith archwilio o fewn y Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024-25 oedd wedi ei gymeradwyo. |

| | |
|---|---|
| | Roedd crynodeb o'r cynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun archwilio mewnol ar 31 Hydref 2024 wedi'i nodi yn Atodiad A. Dangosai fod pymtheg adolygiad archwilio cynlluniedig wedi cael eu cwblhau, sy'n cyfateb i gyfradd gwblhau o 33%.<br><br>Cafodd barnau archwilio eu rhoi i bob un o'r pymtheg archwiliad, yn seiliedig ar asesiad o gryfderau a gwendidau'r meysydd a archwiliwyd drwy roi prawf ar effeithiolrwydd yr amgylchedd rheoli mewnol: Pedwar ar ddeg Sicrwydd Sylweddol neu Resymol, ac un Sicrwydd Cyfyngedig.<br><br>Wedi eu cynnwys yng nghynllun 2024-25, mae chwe archwiliad na chawsant eu cynnal neu eu cwblhau yn 2023-24. Dengys Atodiad B statws yr archwiliadau hyn; mae pump wedi eu cwblhau ac mae'r llall ar y gweill.<br><br>Mae cyfanswm o hanner cant o argymhellion wedi cael eu gwneud hyd yma i wella'r amgylchedd rheoli. Caiff y cynnydd a wneir wrth weithredu'r rhain ei fonitro'n rheolaidd gan y tîm Archwilio ac adroddir wrth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad, tynnodd Aelod Lleyg sylw at yr adroddiad sicrwydd cyfyngedig ar safonau diogelwch taliadau.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad a'r cynnydd a wnaed yn erbyn Cynllun Seiliedig ar Risg Archwilio Mewnol 2024-25. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

**190. Monitro Argymhellion Archwilio Mewnol**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi datganiad sefyllfa i aelodau'r Pwyllgor ar yr argymhellion archwilio mewnol a wnaed, y rhai a weithredwyd a'r rhai oedd yn weddill ar 31 Hydref 2024 ac ystyried y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol. |

| | |
|---|---|
| | Hyd yma mae tri deg pedwar o argymhellion blaenoriaeth ganolig wedi cael eu gwneud yn dilyn cwblhau archwiliadau o gynllun blynyddol eleni. Cytunwyd ar bob un, mae pedwar ar bymtheg wedi cael eu gweithredu ac nid oes yr un ohonynt yn hwyr.<br><br>Nid oes unrhyw argymhellion hwyr ar hyn o bryd.<br><br>Mae pedwar argymhelliad mewn archwiliadau a gwblhawyd yn 2022-23 sydd â dyddiad gweithredu yn y dyfodol o hyd. Ceir manylion y rhain yn Atodiad B.<br><br>Mae'r tîm Archwilio yn monitro argymhellion yn rheolaidd a chaiff unrhyw oedi neu broblemau heb reswm eu dwyn i sylw'r Uwch Reolwyr ac yn y pen draw i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.<br><br>Mewn ymateb i'r adroddiad,<br><br>• Tynnodd Aelod Lleyg sylw at ysgol gynradd gyda deg cam gweithredu canolig ac sydd â barn sicrwydd rhesymol tra mai sicrwydd cyfyngedig sydd gan eraill gyda dim ond tri.<br>• Gofynnodd Aelod am ddiweddariad ysgrifenedig mewn perthynas â gweithredu'r camau a nodwyd mewn perthynas ag ysgol arall, Ysgol Gynradd Corneli.<br>• Ailadroddodd y Cadeirydd ei gais, a wnaed o'r blaen yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 26 Medi 2024, bod disgwyl i'r Cyfarwyddwr cyfrifol a/neu benaethiaid gwasanaeth gwblhau'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt, sy'n dal ar ôl, erbyn y dyddiad a nodir yn yr atodiadau, ac os nad ydynt, y disgwylir iddynt fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ynghyd â'r Aelod Cabinet perthnasol, i egluro pam nad yw'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Nododd y Pwyllgor gynnwys yr adroddiad ac ystyriodd y wybodaeth a ddarparwyd mewn perthynas â statws yr argymhellion blaenoriaeth uchel a chanolig a wnaed gan y Gwasanaeth Archwilio Mewnol Rhanbarthol.<br><br>Gofynnodd y Pwyllgor i'r swyddogion cyfrifol a'r Aelod Cabinet perthnasol, fynychu cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 30 Ionawr 2025, i drafod gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt o ran y Milltiroedd o'r Cartref i'r Gwaith yng Nghherbydau'r Cyngor. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

**191. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2023/24**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phenderfynu a oedd yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24 i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn.<br><br>Dangosai'r adroddiad sut y cyflawnodd y Pwyllgor ei Gylch Gorchwyl yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor fel y'i nodir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.<br><br>Cyflawnodd y Pwyllgor hyn drwy ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd yn ystod 2023/24.<br><br>Dangosodd yr aelodau eu bod wedi dwyn uwch reolwyr i gyfrif am wneud gwelliannau yn y trefniadau llywodraethu a'r amgylchedd rheoli, eu bod wedi herio swyddogion ac wedi gofyn am eglurhad ac adroddiadau cynnydd i gael y sicrwydd angenrheidiol i gefnogi llywodraethu da parhaus.<br><br>Dangosai canlyniad proses hunanasesu 2023/24, yn gyson â blynyddoedd blaenorol, fod gan y Cyngor drefniadau cadarn ar waith o ran ei Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, gan nodi bod lefel gwybodaeth a phrofiad yr aelodau yn dda neu'n foddhaol.<br><br>Cafodd sylwadau Aelodau GAC eu hystyried a'u hymgorffori yn yr adroddiad lle roedd hynny'n briodol.<br><br>Roedd disgrifiadau byrion o aelodau lleyg yn 2023/24 wedi eu cynnwys yn Atodiad 5.<br><br><u>PENDERFYNWYD</u>:<br><br>Cymeradwyodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a phenderfynodd ei fod yn ffurfio crynodeb cytbwys o'r gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn ystod 2023/24, i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

## 192. Blaenraglen Waith wedi ei Diweddaru

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn oedd gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer y Flaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2024-25.<br><br>PENDERFYNWYD:<br><br>Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Flaenraglen Waith ar gyfer 2024-25 wedi'i diweddaru ac fe'i cymeradwyodd, yn amodol ar ychwanegu'r adroddiadau a ganlyn at agendâu dau gyfarfod:<br><br>30 Ionawr 2025<br><br>• Adroddiad ar y System Granicus ar gyfer cwynion.<br>• Adroddiad ar Ganmoliaeth.<br>• Adroddiad ar Ddatganiad Cyfrifon 2023/24: Gwersi a Ddysgwyd.<br>• Adroddiad ar y Strategaeth Ddigidol.<br><br>24 Ebrill 2025<br><br>• Adroddiad ar Orfodi Parcio. |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

## 193. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad Wnaed | Dim |
| Dyddiad Gwneud y Penderfyniad | 28 Tachwedd 2024 |

I arsylwi dadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch yma.

Daeth y cyfarfod i ben am 12:57.